## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

**HYSBYSIAD O'R PENDERFYNIADAU O'R CYFARFOD PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GYNHALIWYD AR MICROSOFT TEAMS DDYDD LLUN 10 IONAWR 2022 AM 5.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:**

Cynghorwyr: Mrs E. M. Aldworth, C. Andrews (Is-gadeirydd), P. J. Bevan, A. Collis, W. David, A. Farina-Childs, D. Havard, B. Miles, Mrs T. Parry (Cadeirydd), J. E. Roberts a Mrs J. Stone.

Aelod Cabinet: Y Cynghorydd R. Whiting (Dysgu a Hamdden).

Swyddogion: R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), A. West (Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif), L. Thomas (Ysgolion yr 21ain Ganrif - Prif Swyddog), P. Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion), S. Ellis (Arweinydd Cynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol), M. Jacques (Swyddog Craffu).
S. Hughes (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) ac M. Harris (Swyddog Cymorth Gwasanaethau Pwyllgorau).

Hefyd yn bresennol:

Aelodau Cyfetholedig: Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaethol Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg), Mrs T. Millington (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr), a Mr G. James (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr).

Hefyd yn bresennol:

Y Cynghorydd J. Pritchard.

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorwyr: D. T. Hardacre, M. P. James, Mrs B. A. Jones, Mrs G. D. Oliver a J. Simmonds.

Mae'r penderfyniadau a'r datganiadau o fuddiant wedi'u nodi isod. Am ragor o fanylion, cyfeiriwch at yr adroddiad perthnasol.

| EITEM | PWNC | PENDERFYNIAD | PLEIDLAIS |
|---|---|---|---|
| 2. | Datganiadau o fuddiant. | Datganodd y Cynghorydd J. Pritchard fuddiant yn Eitem 9 ar yr Agenda – Rhaglen Band B Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif - Adroddiad Ymgysylltu â'r Gymuned: Ysgol Gynradd Plasyfelin, fel Is-gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Plasyfelin. Nodwyd bod y Cynghorydd J. Pritchard yn bresennol i arsylwi ar y cyfarfod. | Ddim yn berthnasol |
| | Cymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol: | | |
| 3. | Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2021. | Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2021 fel cofnod cywir. | Cytunwyd gan y mwyafrif |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4. | Cyfarfod Arbennig y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2021. | Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod arbennig y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2021 fel cofnod cywir. | Cytunwyd gan y mwyafrif |
| 5. | Ystyried unrhyw fater a gyfeirir at y Pwyllgor hwn yn unol â'r weithdrefn galw i mewn. | Nid oedd unrhyw faterion wedi'u galw i mewn. | Ddim yn berthnasol |
| 6. | Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg. | Cynigiwyd y dylid ychwanegu adroddiad ar y ddarpariaeth o staff addysgu cyfrwng Cymraeg at Flaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg.<br><br>Cynigiwyd hefyd, pan fydd y Pwyllgor Craffu Addysg yn ystyried yr adroddiad ar y Cwricwlwm Cymreig, bod yr Aelodau'n cael y cyfle i edrych ar y maes Dyniaethau sy'n ymdrin â dysgu hanes mewn ysgolion.<br><br>Yn dilyn ystyried yr adroddiad, ac yn amodol ar yr adroddiadau ychwanegol a gynigiwyd, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhellion. Trwy bleidleisio ar lafar, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif.<br><br>PENDERFYNWYD cyhoeddi Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg ar wefan y Cyngor. | 13 o blaid<br>1 yn erbyn<br>0 ymatal |
| 7. | Cael ac ystyried yr adroddiadau i'r Cabinet a restrir ar yr Agenda. | Ni chafodd unrhyw un o'r adroddiadau i'r Cabinet a restrir ar yr agenda eu galw ymlaen i'w drafod yn y cyfarfod. | Ddim yn berthnasol |
| 8. | Rhaglen Band B Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif – Adroddiad ar yr Ymgynghoriad: Ysgol Iau Llancaeach/Ysgol Fabanod Llanfabon | Yn dilyn ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhellion. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms i bleidleisio.<br><br>PENDERFYNWYD, cyn i adroddiad gael ei gyflwyno i'r Cabinet, bod y Pwyllgor Craffu Addysg:<br><br>a) Ystyried yr wybodaeth yn yr Adroddiad Ymgynghori.<br><br>b) Cymeradwyo'r argymhelliad i'r Cabinet symud ymlaen i Hysbysiad Statudol mewn perthynas â'r cynnig i greu darpariaeth Ysgol Gynradd newydd drwy uno Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon. | 12 o blaid<br>0 yn erbyn<br>0 ymatal |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9. | Rhaglen Band B Ysgolion a Cholegau’r 21ain Ganrif – Adroddiad Ymgysylltu â'r Gymuned: Ysgol Gynradd Plasyfelin. | Yn dilyn ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhellion. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms i bleidleisio.<br><br>PENDERFYNWYD, cyn i adroddiad gael ei gyflwyno i'r Cabinet, bod y Pwyllgor Craffu Addysg:<br><br>a) Ystyried yr wybodaeth yn yr Adroddiad Ymgysylltu Cymunedol.<br><br>b) Cymeradwyo'r argymhelliad i'r Cabinet symud ymlaen i'r Cam Cyflwyno Cais Cynllunio.<br><br>c) Cymeradwyo'r argymhelliad i symud ymlaen i Achos Busnes Llawn. | 14 o blaid<br>0 yn erbyn<br>0 ymatal |
| 10. | Rhaglen Band B Ysgolion a Cholegau’r 21ain Ganrif – Adroddiad Ymgysylltu â'r Gymuned: Canolfan i Ddysgwyr Agored i Niwed (Uned Atgyfeirio Disgyblion). | Yn dilyn ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhellion. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms i bleidleisio.<br><br>PENDERFYNWYD, cyn i adroddiad gael ei gyflwyno i'r Cabinet, bod y Pwyllgor Craffu Addysg:<br><br>a) Ystyried yr wybodaeth yn yr Adroddiad Ymgysylltu Cymunedol.<br><br>b) Cymeradwyo'r argymhelliad i'r Cabinet symud ymlaen i'r Cam Cyflwyno Cais Cynllunio.<br><br>c) Cymeradwyo'r argymhelliad i symud ymlaen i Achos Busnes Llawn. | 13 o blaid<br>0 yn erbyn<br>0 ymatal |
| 11. | Hunanwerthuso. | Nododd y Pwyllgor Craffu Addysg gynnwys yr adroddiad. | Ddim yn berthnasol |

**Cylchrediad:**

Cyhoeddwyd yn electronig erbyn 5.00pm ddydd Iau 13 Chwefror 2022.